# Natur Drws Nesaf

## Dod o Hyd i Gyllid

### Cyngor cyffredinol am gyllid

Mae llawer o ffynonellau cyllid bach a mawr ledled y DU.

Ond yn gyntaf mae angen i chi wybod beth yn union rydych chi eisiau ei wneud. Bydd llawer o gyllidwyr ond yn gweithio gyda rhai prosiectau penodol, fel y celfyddydau, neu bobl ifanc, ac ati.

Mae angen i chi hefyd wybod faint o arian rydych chi'n gofyn amdano. Yn aml mae gan gyllidwyr gyfyngiadau ar faint fyddant yn ei roi.

Bydd angen i chi gael cyfrif banc ar gyfer y grŵp. Ni fydd angen i chi fod yn elusen bob amser.

Mae gan Groundwork gyngor ardderchog a syml ynghylch gwneud cais am gyllid. Mae gennym hefyd ein cyngor ein hunain mewn dogfen ar wahân.

I gael gwybod am gyllid penodol gan eich cyngor lleol, yng Nghymru a Lloegr, defnyddiwch ganfyddwr cyllid y llywodraeth. Cliciwch ar y ddolen yma a rhowch eich cod post yn y bocs. Bydd yn mynd â chi i'r dudalen gywir ar wefan eich cyngor lleol.

Cofrestrwch ar gyfer y cyfrif am ddim yn My Funding Central. Byddant yn anfon e-bost atoch chi yn rheolaidd gyda newyddion cyllido.

Mae'r wefan Community Foundations yn cynnwys y rhan fwyaf o'r DU. Rhowch eich cod post i mewn, a bydd yn dod o hyd i'ch Sefydliad Cymunedol agosaf. Mae'r rhain yn grwpiau sy'n helpu sefydliadau bach i ddod o hyd i gyllid.

### Rhestrau o gyllidwyr

Os yw'n well gennych edrych ar lyfr, gallwch ddefnyddio *The Directory of Grant Making Trusts*. Mae'n cael ei gyhoeddi bob blwyddyn gan The Directory of Social Change, ac fel arfer bydd yn eich llyfrgell leol.

Mae Grants Online yn rhestru'r grantiau newydd sydd ar gael ledled y DU. Mae'r rhestr yn cael ei diweddaru bob dydd.

Mae GrantFinder hefyd yn rhestru cyllid ar draws y DU. Mae'r ddolen honno'n mynd at eu grantiau datblygu cymunedol, ond hefyd yn edrych ar adrannau eraill. Gall y rhain gynnwys y canlynol:

Jiwbilî Platinwm y Frenhines 2022 | Gwnaed yn bosibl gan Cronfa Treftadaeth | Made possible with Heritage Fund | The Queen's Platinum Jubilee 2022 | Ymddiriedolaethau Natur Cymru Wildlife Trusts Wales

- Cyllid y Celfyddydau, Diwylliant a Threftadaeth.
- Grantiau Amgylcheddol, Grantiau i Blant.
- Pobl Ifanc a Theuluoedd.
- …ac efallai rhai o'r lleill, yn dibynnu ar ba mor arbenigol yw eich prosiect.

Mae gan Charity Excellence Gronfa Ddata Canfod Cyllidwyr am ddim.

Dyma Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.

Dyma rywfaint o gyllid yn yr Alban yn benodol.

## Ffynonellau eraill o gyllid

Mae'n annhebygol y byddwch yn chwilio am fuddsoddiad yn hytrach na grant. Ond os ydych chi eisiau benthyg arian, edrychwch ar https://locality.org.uk/services-tools/funding/

Efallai y byddwch yn cynnal rhai gweithgareddau codi arian. Edrychwch ar ein dogfen ar wahân am gynnal digwyddiadau codi arian.

## Help arall

Mae gan NCVO adnodd taenlen am ddim i'ch helpu i gynllunio'ch cyllideb. Gall hyn fod yn ddefnyddiol pan fyddwch yn gwneud cais am grantiau!